# Cais i newid fformat Radio Ceredigion
## Ymateb Cymdeithas yr Iaith

**1. Cyflwyniad**

1.1. Mae Cymdeithas yr Iaith Gymraeg yn fudiad sy'n ymgyrchu'n ddi-drais dros y Gymraeg a holl gymunedau Cymru.

**2. Crynodeb o'n Safbwynt**

2.1. Gwrthwynebwn ymgais arall gan berchnogion Radio Ceredigion i leihau'r nifer o oriau darlledu lleol a chenedlaethol Cymreig ar yr orsaf. Collfarnwn Ofcom am gynnal a chefnogi system sy'n niweidiol iawn i'r Gymraeg a democratiaeth yng Nghymru. Yn wir, mae'r sefyllfa yn gwaethygu yn sgil penderfyniad Ofcom i fabwysiadu canllawiau lleolrwydd newydd.

2.2. Anodd gennym gredu bod corff rheoleiddio wedi gadael Ceredigion a Chymru gyfan mewn sefyllfa mor drychinebus o ran darpariaeth yn y Gymraeg ac o ran cynnal democratiaeth leol a chenedlaethol Gymreig. Mae Ofcom 'Cymru' yn gadael i'r Gymraeg a democratiaeth Cymru 'yn noeth mewn glaw asid' y farchnad rydd profiad a ddylai fod yn perthyn i'r oes cyn datganoli. Mae ymddygiad Ofcom yn gwneud achos diamheuol dros drosglwyddo pwerau darlledu a chyfathrebu i Gymru fel bod ein democratiaeth ac ein hiaith yn cael y parch a'r sylw sydd gwir ei angen arnyn nhw.

**3. Sylwadau ar y Cais**

3.1. Nodwn fod Ofcom wedi cymryd 'safbwynt rhagarweiniol' ac yn bwriadu caniatáu'r cais i 'newid Fformat' ar sail maen prawf (b) yn Adran 106(1A):

'na fyddai'r gwyriad yn cyfyngu ar amrywiaeth y rhaglenni sydd ar gael ar ffurf gwasanaethau radio annibynnol perthnasol i bobl sy'n byw yn yr ardal neu'r gymdogaeth y trwyddedwyd y gwasanaeth i ddarparu ar ei chyfer;'

3.2. Rydyn ni'n siomedig bod Ofcom unwaith eto'n cynnal ymgynghoriad ar ddarpariaeth radio lleol yng Ngheredigion heb grybwyll y Gymraeg

mewn sir sydd ag oddeutu hanner y boblogaeth yn siaradwyr Cymraeg.

3.3. Ni osodwyd unrhyw rwymedigaeth ar Radio Ceredigion Limited (sydd ym meddiant Nation Radio Limited) wrth ennill yr ail drwydded fis Rhagfyr 2018 i ddarparu cynnwys Cymraeg. Yn y ddogfen ymgynghorol dywedir bod y 'Cais i newid Fformat' yn 'ymestyn – yn hytrach nag yn culhau – yr amrywiaeth o raglenni i wrandawyr yr ardal'. Nid yw darparu newyddion a gwybodaeth leol yng Ngheredigion heb gynnwys darlledu yn y Gymraeg yn cynyddu amrywiaeth y rhaglenni sydd ar gael i'r gynulleidfa yng Ngheredigion.

3.4. Roedd gan Radio Ceredigion Limited, a'i berchnogion Nation Radio Limited, y capasiti llynedd i ddarparu gwasanaeth mwy lleol at chwaeth a diddordeb y gwrandawyr a fyddai wedi bod yn unol â chanllawiau Ofcom:

"3.13: Mae'r Fformat newydd arfaethedig hefyd yn llawer mwy cyson a chanllawiau lleolrwydd cyhoeddedig Ofcom, sy'n nodi'r math o gynnwys (er enghraifft, newyddion lleol) rydym fel arfer yn disgwyl iddo gael ei gyflwyno gan ddeiliaid trwydded radio lleol."

3.5. Gellid bod wedi gweithredu cymal lleolrwydd wrth ddyfarnu'r ail drwydded i Radio Ceredigion Limited. Yn yr un modd gellid bod wedi cynnwys rhwymedigaeth gan Radio Ceredigion Limited i ddarlledu yn y Gymraeg. Ond mae cyfle gan Ofcom nawr, cyn caniatáu'r cais i Newid Fformat, i fynnu bod y Gymraeg yn greiddiol i unrhyw newid.

3.6. Gofynnwn felly i Ofcom gael cadarnhad ynghylch yr isod cyn caniatáu cais Radio Ceredigion Limited a sicrhau bod unrhyw benderfyniad i newid fformat yn seiliedig ar ddarpariaeth darlledu yn y Gymraeg mewn sir sydd ag oddeutu hanner ei phoblogaeth yn siarad Cymraeg:

Trefniadaeth Radio Ceredigion Limited i ddarlledu yn y Gymraeg - wrth 'ymestyn yr amrywiaeth o raglenni sydd ar gael i wrandawyr yr ardal'.

Trefniadaeth Radio Ceredigion Limited i ddarlledu yn y Gymraeg yn eu 'Cymeriad Gwasanaeth' diwygiedig -wrth ehangu'r 'dewis i wrandawyr'.

3.7 Nodwn sylwadau camarweiniol Ofcom. Nodwn fod bwletinau newyddion lleol yn mynd i newid o 'Newyddion cenedlaethol Cymru bob awr o leiaf yn ystod oriau brig' i 'o leiaf bob awr yn ystod oriau brig yn ystod yr wythnos ac ar ddydd Sadwrn'. Mae hyn yn amlwg yn lleihad yn y

ddarpariaeth. Er hyn nodir mai safbwynt rhagarweiniol Ofcom ydy 'y byddai'r newid arfaethedig i gymeriad y gwasanaeth a'r ymrwymiad i ddarparu bwletinau newyddion yn lleol yn ymestyn - yn hytrach nag yn culhau'.

3.8 Nodwn fod Ofcom yn honni fod y newid yn y drwydded yn 'bodloni maen prawf (b)', ond nodwn fod, o ran oriau wedi eu gwneud yn lleol yn newid o 'o leiaf 21 awr y diwrnod (rhaid cynnwys amser brecwast ac amser brecwast ar benwythnosau)' yn mynd i newid i 'o leiaf 7 awr y diwrnod yn ystod y dydd o ddydd Llun i ddydd Gwener. O leiaf 4 awr yn ystod y dydd ar ddydd Sadwrn a dydd Sul'. Nodwn fod hyn yn lleihad o 147 awr yr wythnos wedi ei wneud yn lleol i 43 awr yr wythnos wedi ei wneud yn lleol. Nid yw hyn yn bodloni'r amodau a welir yn 2.11.

3.9 Cyfeirir yn yr ymgynghoriad at Radio Aber fel rhan o'r 'gymysgedd' o wasanaethau yn yr ardal. Mae hyn yn gamarweiniol gan nad yw'r orsaf ar yr awyr eto na'r drwydded wedi cael ei rhoi.

**4. Adran 106(1A) Deddf Darlledu 1990**

4.1. Gofynnir yn yr ymgynghoriad i ymatebwyr gyfyngu unrhyw sylwadau neu wrthwynebiad i'r newidiadau yn seiliedig ar adran 106(1A) Deddf Darlledu 1990.

4.2. Credwn y byddai'r gwyriad yn cyfyngu ar amrywiaeth y rhaglenni sydd ar gael ar ffurf gwasanaethau radio annibynnol perthnasol i bobl sy'n byw yn yr ardal y trwyddedwyd y gwasanaeth i ddarparu ar ei chyfer drwy ymysg pethau eraill:

(i) lleihau'r amrywiaeth ar drwydded Radio Ceredigion o 21 awr y dydd o Gymru i 7 yn unig o Gymru;
(ii) dileu'r gofyniad i gael newyddion cenedlaethol o Gymru;
(iii) ganiatau llai o gynnwys Cymreig ar y penwythnos;
(iv) peidio â gofyn am unrhyw gynnwys Cymraeg ar yr orsaf

4.3. Nodwn fod yr adroddiad yn cyfeirio sawl gwaith at Radio Aber, a hynny yng nghyd-destun amrywiaeth darlledu'r ardal. Credwn ei bod yn gamarweiniol i gyfeirio at yr orsaf honno gan nad yw hi'n darlledu eto. Mae'r adroddiad yn rhoi'r argraff bod mwy o amrywiaeth darlledu nag y mae mewn gwirionedd.

## 5. Casgliad

5.1. Galwn eto i ddatganoli darlledu i Gymru gan ddefnyddio'r ymgynghoriad hwn fel tystiolaeth bellach ar sut nad yw rheolau Ofcom yn 'hyrwyddo buddiannau dinasyddion a defnyddwyr' Cymru.

5.2. Nodir yn yr ymgynghoriad hwn mai 'hyrwyddo buddiannau dinasyddion a defnyddwyr' yw un o brif ddyletswyddau Ofcom. Amhosibl ydy gwneud hyn heb ddiddordeb ym muddiannau dinasyddion a defnyddwyr Ceredigion na Chymru, na dealltwriaeth ohonynt. Nid oes unrhyw dystiolaeth yma o sut mae Ofcom wedi dod i ganlyniad am y buddiannau yna.

Grŵp Digidol
Cymdeithas yr Iaith
Mai 2019